



Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Treganna
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	646
Cyfarwng (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	4.95%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Medi 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Medi 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Manon George
Yn arwain ar y GDD	Catrin Evans
Llywodraethwr sy'n arwain	Manon George (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£39,100
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	£2,664,608

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Cynnal sesiynau penodol i'r disgyblion ar y gofrestr GDD i hybu eu cynnydd ymhellach mewn maes llythrennedd a sgiliau allweddol eraill.

Sicrhau bod holl ddisgyblion ar y gofrestr GDD yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu meysydd dysgu a'u profiadau addysgol.

Cefnogi lles cadarnhaol ar gyfer holl ddisgyblion y gofrestr GDD, gan hyrwyddo hyder, cymhelliant a phrofiadau positif.

Sicrhau cydraddoldeb llwyr i bob disgybl, gan sicrhau nad oes unrhyw un o dan anfantais, ac mae mynediad i'r cwricwlwm a phrofiadau addysgol yn gyfartal.

Lliniaru'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion GDD a disgyblion eraill yr ysgol drwy gefnogaeth wedi ei dargedu a monitro cynnydd.

Sicrhau bod disgyblion o dan anfantais yn cael eu cynnwys yn weithredol yn nhrefniadau'r ysgol a phwyllgorau disgyblion, gan roi llais iddynt a hyrwyddo cyfranogiad.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniadau a fwriedir	Meini Prawf Llwyddiant
Gwella safonau darllen disgyblion ar y gofrestr GDD drwy ddatblygu rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth, gan sicrhau cynnydd mesuradwy a datblygiad academiaidd parhaus.	Cynnydd Parhaus mewn Medrau Darllen: Bydd y mwyafrif o ddisgyblion ar y gofrestr yn gwneud cynnydd amlwg yn eu medrau darllen, gan gynnwys rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth, sy'n cael eu monitro a'u dogfennu'n rheolaidd. Monitro Systematig a Dangosadwy: Bydd cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro drwy asesiadau a gwerthusiadau parhaus, gan sicrhau tystiolaeth glir o ddatblygiad mewn darllen a chyrhaeddiad targedau personol. Datblygiad Academiaidd Cynhwysol: Bydd disgyblion yn datblygu'n barhaus yn eu medrau darllen, gan gyflawni

	canlyniadau disgwylledig yn unol â'u gallu, a chynyddu eu hyder a'u hymgysylltiad â dysgu. Datblygiad Sgiliau Darllen yn Unol â'u Hoedran: Bydd y dulliau ymyrraeth yn sicrhau bod pob disgybl yn datblygu sgiliau darllen sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer dysgu pellach ar draws y cwricwlwm. Ymyraethau wedi'u Targedu: Bydd ymyraethau penodol yn mynd i'r afael ag anghenion unigol y disgyblion, gan gefnogi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu medrau darllen a gwneud cynnydd tuag at gyrhaeddiad tebyg i'w cyfoedion.
Sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion ar y gofrestr GDD yn manteisio ar brofiadau allgyrsiol fel tripiâu ysgol, gwersi offerynnol a bod yn rhan o bwyllgorau ysgol. Bydd yr ysgol yn cyfrannu at y profiadau hyn er mwyn sicrhau mynediad.	Mynediad Cyfartal i Brofiadau: Bydd holl ddisgyblion ar y gofrestr GDD yn cael cyfle i fynychu tripiâu ysgol a chyrsiau preswyl yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod ganddynt yr un cyfleoedd a manteision ag unrhyw ddisgybl arall yn yr ysgol. Cynnydd Cymdeithasol a Chyfathrebu: Bydd disgyblion yn datblygu'n gymdeithasol, gan gymryd rhan yn y pwyllgorau ysgol a gweithgareddau grŵp, gan adeiladu hyder, cydweithrediad a sgiliau cyfathrebu. Datblygiad Sgiliau Bywyd: Bydd y profiadau allgyrsiol yn datblygu sgiliau bywyd pwysig, gan gynnwys trefnu, gwaith tîm, cymhelliant a moeseg gwaith, sy'n paratoi disgyblion ar gyfer llwyddiant academiaidd a thu hwnt i'r ysgol. Cynnydd Personol ac Integreiddio Cymunedol: Bydd ymyraethau ysgol yn cefnogi datblygiad personol pob disgybl, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned ysgol a'u bod yn cael profiadau cymdeithasol cyfartal â'u cyfoedion. Monitro a Sicrhau Mynediad: Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion a monitro cyfranogiad disgyblion ar y gofrestr GDD i sicrhau bod pob un yn elwa o'r profiadau hyn, gan ganiatáu ymyrraeth benodol lle bo angen.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD y flwyddyn academiaidd hon i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Sesiynau Llythrennedd: Cynnal sesiynau darllen ychwanegol gyda disgyblion targed y gofrestr GDD, gan ddefnyddio cyfraniad amser a chyflog aelodau staff. Bydd y sesiynau hyn yn targedu meysydd allweddol megis rhuglder darllen, cywirdeb, dealltwriaeth a datblygu geirfa, gan sicrhau cynnydd mesuradwy ym medrau darllen pob disgybl.

Cefnogaeth i Brofiadau Allgyrsiol: Sicrhau bod disgyblion GDD yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys tripiâu ysgol, gwersi offerynnol a gweithgareddau pwyllgor ysgol. Bydd cyfraniad staff yn sicrhau bod y profiadau hyn ar gael yn ddiogel ac yn gynhwysol, gan gefnogi datblygiad cymdeithasol a sgiliau bywyd y disgyblion.

Monitro a Chydgysylltu Datblygiad: Defnyddio cyfraniad staff i gynnal a monitro cynnydd y disgyblion drwy'r sesiynau academiaidd a'r profiadau allgyrsiol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn manteisio i'r eithaf o'r cyfleoedd a ddarperir, gan sicrhau mynediad cyfartal, datblygiad personol a chyfranogiad llawn yn yr ysgol.

Dysgu ac Addysgu

Cost wedi' chyllidebu: £16,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyfrannu at gost cymhorthion sydd yn darparu ymyraethau amrywiol ar gyfer ein disgyblion.	Ymyraethau i gynnwys gweithgareddau penodol i wella medrau darllen. Data'r ymyraethau i ddangos bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd amlwg yn eu medrau llythrennedd a darllen, gyda chynnydd amlwg i weld yn safon darllen disgyblion a'r tasgau ysgrifenedig.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £22,100

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyfrannu at gyflog cymhorthydd Lles i gynnal sesiynau 1-1 a chwnsela i ddisgyblion sydd angen ymyrraeth bellach	Cynnal sesiynau un i un yn y Cwtch, yn ogystal â chwnsela i ddisgyblion sydd angen ymyrraeth ychwanegol. Byddwn yn sicrhau bod yr ymyriadau hyn yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn bodloni

	anghenion unigol pob disgybl ac i gael effaith mor gadarnhaol â phosibl.
Cyfrannu at gostau Arweinydd Lles yr ysgol	Cydweithio'n agos gyda'n disgyblion mwyaf bregus drwy gynnig amrywiaeth o ymyraethau lles wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau therapiwtig fel Lego a Chelf, yn ogystal â Chlwb Cwtsh gyda sesiynau galw mewn, lle gall disgyblion ddod i dderbyn cymorth mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarnhaol o'u hiechyd meddwl ac yn gwybod pwy i droi ato pan fyddant angen cymorth, gan gryfhau eu gallu i reoli eu teimladau a chael effaith gadarnhaol ar eu lles cyffredinol.

Ysgolion Cymunedol.

Cost wedi'i chyllidebu: £1,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth yn cefnogi'r dull hwn
Stondin gwisg ysgol ar gael i deuluoedd yr ysgol	Mynediad gan yr holl ddisgyblion at wisg ysgol yr ysgol
Sesiynau galw heibio i rieni bregus a sesiynau gwybodaeth/ bore coffi gydag athrawon arbenigol	Bydd cyfle i rieni gyfarfod ag athrawon arbenigol, derbyn gwybodaeth fanwl am y ddarpariaeth sydd ar gael, ac archwilio strategaethau ymarferol i gefnogi eu plant gartref. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cynnig amgylchedd cefnogol lle gall rhieni ofyn cwestiynau, rhannu profiadau a deall sut i gryfhau lles a dysgu eu plant yn effeithiol.
Cyfrannu at gostau gweithgareddau allgyrsiol	Pob disgybl yn yr ysgol yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn profiadau allgyrsiol sy'n meithrin hyder a datblygu sgiliau newydd. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi mewn cyrsiau ychwanegol, triapiau addysgol, gwersi allgyrsiol ac offerynnol, yn ogystal â chlybiau a gweithgareddau allanol eraill. Trwy'r profiadau hyn, mae disgyblion yn cael eu hannog i archwilio diddordebau newydd, adeiladu hunan-barch a datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu mewn amgylchedd cefnogol ac ysgogol.

Cyfanswm cost y ceisiadau: £39,100

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym flwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Rhan fwyaf wedi gwneud cynnydd yn eu medrau sillafu ac ysgrifennu.	O'r disgyblion a gafodd gymorth wedi'i dargedu, mae'r mwyafrif wedi dangos cynnydd cadarnhaol yn eu medrau sillafu ac ysgrifennu, fel y gwelir drwy waith dosbarth, asesiadau mewnol a monitro targedau unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwella eu gallu i ddefnyddio geirfa briodol, sillafu geiriau amllder uchel a strwythuro eu hysgrifennu yn fwy effeithiol. Mae pob disgybl yn y Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 2 (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u nodi ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol) wedi gwneud cynnydd yn eu medrau sillafu ac ysgrifennu cynnar, gan ddatblygu hyder wrth ffurfio geiriau ac ysgrifennu brawddegau syml. Mae'r ysgol wedi parhau i fuddsoddi mewn adnoddau llythrennedd ac ymyraethau wedi'u targedu er mwyn cefnogi datblygiad sillafu ac ysgrifennu. Mae'r adnoddau hyn wedi darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gyfrannu at gynnydd parhaus a gwell hyder yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol.
Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos hyder cynyddol wrth ddysgu, gan ddatblygu sgiliau annibyniaeth a dyfalbarhad wrth wynebu tasgau newydd.	Dengys monitro cyson fod y disgyblion yn hyderus wrth ddysgu ac yn gallu mynegi eu syniadau yn glir, gan wneud cynnydd llwyddiannus yn eu gwaith. Mae arsylwadau dysgu, trafodaethau gyda disgyblion, a holiaduron wedi cadarnhau bod cynnydd amlwg yn eu sgiliau annibynnol a'u gallu i ddyfalbarhau wrth wynebu tasgau heriol. Hefyd, mae gwersi awyr agored wedi chwarae rôl bwysig wrth gryfhau'r datblygiadau hyn, gan ddarparu profiadau

	ymarferol i helpu disgyblion i adeiladu hyder a medrau ymarferol.
Rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cael mynediad i raglenni ymyrraeth a chymorth mewn Llythrennedd a Rhifedd	Mae hyn yn cynnwys rhaglenni fel Cychwyn Eto, Sound Discovery, Handwriting Motorway, WellComm, POPAT, Language/Speech Link, ELSA, Talkabout, Therapi Lego (Llythrennedd Emosiynol a Chymdeithasol), yn ogystal ag ymyriadau grwpiau bach eraill, technolegau ychwanegol a gwaith cymorth iaith. Data yn dangos bod hyn wedi cael effaith sylweddol a chynaliadwy. Yn ogystal, mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i hyfforddi staff mewn technegau newydd a brofwyd i godi safonau dysgu a chefnogaeth, gan gynnwys Proffil ELSA ac Un Tudalen. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu'n allanol ac yn cynnig cymorth twedi ei dargedu, sy'n cefnogi datblygiad unigol disgyblion a sicrhau bod cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynaliadwy dros amser.
Cyfrannu at gostau gweithgareddau allgyrsiol	Eleni, mae'r ysgol wedi cyfrannu'n sylweddol at gostau amrywiol gweithgareddau disgyblion, gan gynnwys tripiâu i Langrannog, Maes y Fron, Canolfan yr Urdd, Caerdydd, perfformiadau theatr, gwersi offerynnol a gwibdeithiau dosbarth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ysgol wedi talu hyd at 60% o'r costau, ac mewn rhai achosion, mae'r ysgol wedi ariannu'r pris llawn i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan. Mae'n bleser nodi bod pob disgybl sydd ar y gofrestr GDD wedi mynychu pob trip a chyrsiau preswyl, gan sicrhau bod pob un yn cael y profiadau llawn heb rwystrau ariannol.
Cynnal arwerthiant dillad ail law yn gyson.	Mae'r ysgol wedi trefnu arwerthiant dillad ail-law eleni, gan sicrhau bod pob teulu yn cael mynediad at wisg ysgol. Er bod yr ysgol yn annog cyfraniad lle bo'n bosibl, lle bo angen, roedd teuluoedd yn gallu derbyn gwisg ysgol ail-law am ddim. Mae'r cynllun hwn wedi cyfrannu at gefnogi teuluoedd o bob cefndir, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu mynychu'r ysgol gyda'r offer priodol, heb rwystrau ariannol, ac yn hyrwyddo cymuned ysgol gydlynol a chynhwysol.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Darllen Co	Darllen Co Cyfyngedig Ltd
Speech & Language Link	Speech Link Multimedia Ltd
Big Maths	Big Maths Ltd
Bugs Online	Pearson Education
NACE	NACE
Monster Phonics	Monster Phonics Ltd
Superhero Spelling	Monster Phonics Ltd

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Defnyddiwyd y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG-CLA) i gael Therapydd Chwarae i gefnogi pump dysgwr. Cynhaliwyd sesiynau rheolaidd, wedi'u teilwra i anghenion emosiynol ac ymddygiadol pob unigolyn. Gwelwyd cynnydd yn hyder, sgiliau cyfathrebu, a gallu'r dysgwyr i reoli eu hemosiynau o fewn amgylchedd dysgu. Roedd adborth gan staff hefyd yn tystio i effaith gadarnhaol yr ymyrraeth ar les cyffredinol y dysgwyr.